# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ39421, a gyhoeddyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 23 Tachwedd 2004

**At Michael German:**

Yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd, addewais ysgrifennu atoch gyda manylion y cyllid a roddir i awdurdodau lleol fel cymhelliant i wella perfformiad. Yn gyffredinol, gwerth y pecyn cyllid ar gyfer cynlluniau gwella awdurdodau lleol fydd £33.77 miliwn y flwyddyn o'r flwyddyn ariannol nesaf.

Y prif gyfrwng cymorth yw trwy'r cytundebau polisi, yr ydym wrthi'n eu cwblhau gyda phob awdurdod lleol. Maent yn pennu cerrig milltir a thargedau cytun ar gyfer perfformiad mewn meysydd gwasanaeth allweddol ar gyfer y tair blynedd hyd at 2007, yn ogystal â thargedau eraill ar gyfer gwasanaethau neu ddatblygiadau sydd o bwysigrwydd penodol yn lleol. Mae'r cytundebau a luniwyd gennym hyd yn hyn ar gael ar y rhyngrwyd yn http//www.wales.gov.uk/subilocalgov/content/policy/2004-07/agreement-index-e.htm.

Yn gyfnewid am lunio cytundeb, ac ar ôl hynny am gyrraedd y cerrig milltir a'r targedau ynddo, bydd pob awdurdod lleol yn cael grant cymell perfformiad yn flynyddol. Cyfanswm gwerth grant o'r fath yw £30 miliwn y flwyddyn tan 2007, a chyfrifir y ganran y bydd pob awdurdod yn ei chael gan ddefnyddio'r un fformiwla sy'n berthnasol i'r prif grant cynnal refeniw. Mae'r grant wedi'i neilltuo'n gyfan gwbl ac mae croeso i awdurdodau lleol wneud cais amdano os dymunant. Fodd bynnag, ni fyddwn yn talu'r grant os bydd awdurdod yn methu â chyrraedd ei gerrig milltir neu ei dargedau heb reswm da.

Ar wahân i'r setliad refeniw llywodraeth leol, yr ydym hefyd yn rhoi cymorth ariannol i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyflawni gwaith cynnal gwelliannau. Yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd hyn yn cynnwys grantiau craidd ar gyfer ei unedau gwella, cydraddoldebau a data sy'n dod at gyfanswm o £1.27 miliwn gydag £1 miliwn arall ar gyfer cymorth uniongyrchol i awdurdodau lleol wella eu gwasanaethau. Yn ogystal, byddwn yn rhoi grant o £1.5 miliwn i Gomisiwn Archwilio Cymru (y cyfeirir ato cyn hir fel Swyddfa Archwilio Cymru) iddo helpu'r broses wella drwy gynnal archwiliad ac arolygiad annibynnol o awdurdodau lleol.

Wrth gwrs, ceir llawer o ffyrdd eraill nad ydynt yn ffyrdd ariannol o annog perfformiad da, er enghraifft, drwy ofyn am adroddiadau cyson o ddata ar berfformiad, gwella prosesau caffael ac atebolrwydd y cyhoedd, a lledaenu arfer gorau. Mae'r rhain a phethau eraill hefyd yn ganolog i'n fframwaith gwella llywodraeth leol.

## Gwybodaeth ychwanegol at y ddadl ar gynllun gofodol Cymru ar 17 Tachwedd 2004, a gyhoeddwyd gan Sue Essex, y Gweinidog Cyllid, ar 6 Rhagfyr 2004

**At David Lloyd:**

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd ar gynllun gofodol Cymru, awgrymwyd gennych y dylai gweledigaeth cynllun gofodol Cymru gydnabod bod angen gwella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De ar frys.

Mae gwella ein cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De yn rhan o agenda'r Llywodraeth, a chaiff ei gydnabod ymhlith amcanion cynllun gofodol Cymru. Bwriedir gwella'r cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De erbyn diwedd 2005. Ceir amserlen ac iddi batrwm safonol, a fydd yn cynnig gwasanaeth bob dwy awr rhwng Caergybi a Chaerdydd drwy Wrecsam.

Mae'r flaenraglen cefnffyrdd yn nodi cyfres o 21 o welliannau i'r system ffyrdd rhwng Gogledd a De Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys ffyrdd osgoi fel Talgarth, mwy o gyfleoedd i fynd heibio i gerbydau eraill a gwelliannau eraill i'r ffyrdd er mwyn cynyddu dibynadwyedd teithiau, yn arbennig ar yr A470, sef y prif ffordd gyswllt rhwng y Gogledd a'r De. Er y caiff y flaenraglen cefnffordd ei hadolygu fel rhan o'r strategaeth trafnidiaeth newydd, bydd yr ymrwymiad i wella cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De yn parhau.

Yn ogystal, mae'r Mesur Trafnidiaeth (Cymru) yn gwneud darpariaeth i Lywodraeth y Cynulliad gefnogi cysylltiadau awyr rhwng Gogledd a De Cymru.

Diolch am eich cyfraniad cadarnhaol i broses y cynllun gofodol, y credaf y bydd o fudd mawr i Gymru yn yr hirdymor. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynnydd.

**At Alun Ffred Jones:**

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd ar gynllun gofodol Cymru gofynasoch i mi egluro sut y byddai modd sicrhau na fydd y twf yng Ngogledd-orllewin Cymru yn canolbwyntio ar Fangor yn unig. Yr oeddech hefyd am weld mwy o bwyslais ar sicrhau bod swyddi'n cael eu dosbarthu'n deg ledled Cymru a bod cartrefi ar gael ar gyfer pobl ifanc.

Y weledigaeth ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru yw y bydd canolfannau cryf yn cael eu creu ar ddwy ochr y Fenai, gan gynnwys Llangefni. Caiff y ganolfan hon ei chysylltu â'r cyffiniau er mwyn cyrraedd mwy o bobl, gan ymestyn tua'r de i gyfeiriad Borthmadog. Er bod Bangor yn elfen bwysig iawn yn y cyd-destun hwn, yr ydym yn siwr, drwy wneud cysylltiadau cadarnhaol rhwng y gwahanol ganolfannau, er mwyn iddynt allu ategu ei gilydd, byddant yn elwa o gydweithio â'i gilydd. Bydd sicrhau bod hyn yn digwydd yn rhan bwysig o'r gwaith yn ardal Gogledd-orllewin Cymru.

Mae mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau o ran cyfleoedd cyflogaeth a hyrwyddo proses deg o ddosbarthu swyddi ledled cymru, ar sail cryfderau a chyfleoedd ardaloedd, yn ganolog i'r cynllun gofodol a'i thema o hyrwyddo economi cynaliadwy. O ran cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, mae'n ystyriaeth bwysig yn ein strategaeth leoli a chaiff ei gynnwys yn y cynllun manwl o uno'r CCNCau â Llywodraeth y Cynulliad ar lefel ranbarthol.

Yn olaf, cydnabyddir y mater pwysig o sicrhau bod tai ar gael yng nghynllun gofodol Cymru. Mae'n nodi'r cyd-destun y byddwn yn gweithio yn ei erbyn gydag awdurdodau lleol i wella'r mecanweithiau i sicrhau bod tai priodol a fforddiadwy ar gael ledled Cymru.

Y cam nesaf fydd rhoi mwy o ffurf a sylwedd i fframweithiau'r ardal sy'n edrych ar yr ardal gyfan.

Diolch am eich cyfraniad cadarnhaol i broses y cynllun gofodol, y credaf y bydd o fudd mawr i Gymru yn yr hirdymor. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynnydd.

**At Mick Bates:**

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd ar gynllun gofodol Cymru, pwysleisiwyd gennych bwysigrwydd deall statws cyfreithiol cynllun gofodol Cymru mewn cysylltiad â'r system cynllunio defnydd tir statudol. Nodwyd gennych hefyd, er mwyn bod yn ddefnyddiol iawn, y dylai cynllun gofodol Cymru ddarparu cronfa ddata gyfrifiadurol a fydd yn galluogi cynllunwyr i integreiddio polisïau a strategaethau. Yn olaf, awgrymwyd gennych bod cynllun gofodol Cymru wedi anwybyddu effaith newid yn yr hinsawdd.

O ran eich pwynt cyntaf, nid oes gan gynllun gofodol Cymru statws cynllun datblygu. Mae'n bolisi cynhwysfawr Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn fwy na chynllun datblygu a defnyddio tir cenedlaethol neu ranbarthol. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau datblygu newydd llywodraeth leol ei ystyried. Caiff hyn ei brofi mewn sawl ffordd wrth i'r cynllun wneud cynnydd drwy ei gamau amrywiol. Yn y pen draw, os na dderbynnir gwrthwynebiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae ganddo'r pwer i gyfeirio addasiadau neu galw'r cynllun i fewn.

Cyn dechrau ar y system newydd o gynlluniau datblygu yn ystod tymor yr hydref flwyddyn nesaf, bydd cynllun gofodol Cymru yn ystyriaeth berthnasol o ran asesiadau'r Cynulliad a'r Arolygiaeth Gynllunio o'r cynllun datblygu unedol ac o ran penderfyniadau cynllunio.

O ran eich ail bwynt, rhoddwyd croeso mawr i'r CD ROM a oedd ar gael gyda chynllun gofodol drafft Cymru y llynedd ac ar hyn o bryd, mae fy swyddogion wrthi'n diweddaru'r CD ROM hwn ac yn sicrhau bod y wybodaeth ar gael drwy'r rhyngrwyd. Ein dyhead yn y tymor canolig yw cael canolfan wybodaeth ar-lein amlbwrpas a hawdd ei defnyddio a all lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar draws pob sector yng Nghymru.

Anghytunaf â chi ar eich pwynt olaf. Mae effaith bosibl newid yn yr hinsawdd, sut y gallwn ymateb iddo a beth y mae angen i ni ei wneud i leihau ein cyfraniad iddo yn ganolog i'r posibilrwydd o gyflawni dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru ac yn llunio ystyriaethau allweddol yn y ddogfen. Fe'i hadlewyrchir yn yr amcanion cenedlaethol yn ogystal â'r rhai mewn ardaloedd arbennig o Gymru, lle y mae'r effaith bosibl ar ei huchaf.

Diolch am eich cyfraniad cadarnhaol i broses y cynllun gofodol, y credaf y bydd o fudd mawr i Gymru yn yr hirdymor. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynnydd.

**At Eleanor Burnham:**

Yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Tachwedd ar gynllun gofodol Cymru, awgrymwyd gennych bod angen asesiad cryf o'r seilwaith fel rhan o gynllun gofodol Cymru.

Cytunaf ei bod yn bwysig dadansoddi a deall cyflwr ein systemau seilwaith yng Nghymru - a thros y ffin lle y mae'r effaith yn ehangach - a gallu ymateb i unrhyw ddiffygion. Fodd bynnag, nid rôl cynllun gofodol Cymru yw ailadrodd rhaglenni a pholisïau sectoraidd manwl, lle y maent yn bodoli. Byddai'n well cynnal llawer o'r gwaith manwl ar yr agweddau hyn ar y lefel ardal a bydd yn ffurfio rhan bwysig o'r gwaith ardal sydd i ddod yng nghyd-destun cynllun gofodol Cymru.

Diolch am eich cyfraniad cadarnhaol i broses y cynllun gofodol, y credaf y bydd o fudd mawr i Gymru yn yr hirdymor. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am gynnydd.